

Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangywer
Canolfan yr Henblas
11/1/2016

Presennol: Gwyn Roberts (yn y gadair), John Morris, Geraint Roberts, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Cytunodd Gwyn Roberts i gadeirio'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau W D Williams, Emyr Jones, Tyly Roberts ac Eleri Jones, i gyd yn methu bod yn bresennol oherwydd amgylchiadau arbennig ac annisgwyl.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 9fed, 2015.
5. **Adroddiad y Clerc:** derbyniodd gyngor gan SLCC o'r hyn sydd angen bod yn ymwybodol ohono cyn i Gynghorwyr neu wirfoddolwyr fynd ati i glirio eira a thaenu halen. Adroddodd ar ymateb Un Llais Cymru a'r pryder cyffredinol mewn ardaloedd gwledig am y bwriad i ddirwyn y gwasanaeth hwn i ben. Llythyrwyd y Deilydd Portffolio yng Nghyngor Gwynedd hefyd.

Mae Adran y Priffyrdd ac Adran Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri wedi cytuno i ymgynghori gyda Chyngor Cymuned Llangywer os oes cynlluniau sy'n effeithio ar ffyrdd o fewn y gymuned.

6. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Dywedodd Alan Jones Evans ei fod wedi cael un cyfarfod eisoes gyda'r Deilydd Portffolio am fater y biniau halen a bod cyfarfod pellach wedi ei drefnu. Mynegodd siom am yr oedi pellach o rai misoedd i adeiladu ysgol Gydol Oes oherwydd amodau cynllunio. Dywedodd ei fod yn obeithiol y cytunir i ymestyn y parth 40mya ar y B4391 er mwyn diogelwch.
7. **Adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** cafwyd cyflwyniad am Gartrefi Cymunedol Gwynedd a thrafodaeth ar ddiogelwch ffyrdd yn ystod tywydd oer.
8. **Materion ariannol:**
 - i. Cwblhawyd yr asesiad blynyddol o risgiau ariannol.
 - ii. Adolygwyd gwariant 2015- 16
 - iii. Cytunwyd ar gyllideb 2016-17 gan dderbyn yr her o fod yn ddarbodus gydag unrhyw wariant.
 - iv. Cytunwyd i gadw lefel y Praesept yr un fath a llynedd
 - v. Cytunwyd i dalu costau'r Clerc ar gyfer 2015
9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Cytunodd y Cynghorydd Alan Evans i holi a oes bwriad i ail-wynebu ffordd Glyn Bach a Chefn Ddwygraig. Cytunodd hefyd i dynnu sylw'r swyddogion at ddefnydd anghyfreithlon gan eraill o finiau'r Glyn, yn arbennig ar adeg Gwyliau'r Banc.

10. **Gohebiaeth:**

- i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyniwyd gwybodaeth fod ymgyngoriad ar Ganllaw Atodol "*Aseiad o Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd*" ar gael ar wefan y Parc, a disgwylir ymatebion erbyn 12/2/16.
- ii. **Heddlu:** Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun Gwarchod y Gymdogaeth a chyfarfod cyhoeddus 14/1/16 i drafod blaenoriaethau plismona.
- iii. **Cyngor Gwynedd:** Nodwyd derbyn rhestr Her Gwynedd o ddiddordeb i Gynghorau Cymuned
- iv. **E-bost dathliadau'r Frenhines:** Nodwyd derbyn yr e-bost a chyfeiriwyd at y penderfyniad cynt o'r angen i fod yn ddarbodus gyda'r cyllid.

11. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 14/3/16 yn y Neuadd Bentref.